Swyddog Marchnata, Digwyddiadau ac Ymgysylltu; Swydd Ddisgrifiad

Parc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc)
Ein amcan ydi i danio uchelgais ac arloesedd ar gyfer Cymru gynaliadwy

Swydd deitl	**Swyddog Marchnata, Digwyddiadau ac Ymgysylltu**
Yn atebol i	Swyddog Allgymorth a Cymuned
Lleoliad	Wedi'i leoli ym Mharc Gwyddoniaeth Menai (M-SParc) Desgiau "Dros Dro" M-SParc a Lleoliadau Cydweithio.
Oriau Gwaith	**Dydd Llun i ddydd Gwener** lleiafswm o 37.5 awr yr wythnos a hyd at 48 awr yr wythnos. Mae digwyddiadau rhwydweithio, gweithdai a seminarau, digwyddiadau gyda'r nos a theithio yn golygu bod yr hyblygrwydd i weithio oriau ychwanegol yn hanfodol.
Cyflog	Byddwn yn ystyried ceisiadau gan bobl iau a phrofiadol a byddwn yn darparu mentoriaeth a hyfforddiant i aelodau iau a lefel mynediad y tîm. **Lefel Iau / Mynediad £25,000-£30,000** ynghyd â threuliau **Profiadol / Lefel Swyddog £30,000-£35,000** ynghyd â threuliau
Term	3 mlynedd yn y lle cyntaf

Gwneud gwahaniaeth.
Mae hwn yn gyfle cyffrous ac yn gyfle gyrfa gwych i weithio i'r Parc Gwyddoniaeth pwrpasol cyntaf yng Nghymru. Byddwch yn cyfrannu at lwyddiant prosiect a gydnabyddir gan Lywodraeth Cymru fel sbardun economaidd allweddol yn y rhanbarth. Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm bach sy'n ymroddedig i wella ffyniant pobl Cymru. Dyma gyfle i wneud argraff a chael effaith.

Mae M-SParc (is-gwmni sy'n eiddo llwyr i Brifysgol Bangor) yn gweithredu Parc Gwyddoniaeth ar Ynys Môn gyda'r nod o gefnogi mentrau a phrosiectau sy'n cael eu harwain gan wybodaeth i dyfu a llwyddo. Ceir rhagor o fanylion ar ein gwefan www.m-sparc.com

Pwrpas y swydd
Bydd deiliad y swydd yn:

- Gweithio ar, datblygu, a bod yn berchen ar y strategaeth farchnata a chysylltiadau cyhoeddus, i ryddhau gwybodaeth amserol mewn ffordd ddeniadol a chyffrous.
- Bod yn rhagweithiol wrth gynhyrchu deunydd marchnata, dod o hyd i gyfleoedd ar gyfer straeon, a sicrhau bod cynnwys yn cael ei rannu sy'n cyd-fynd ag ethos a brand y Parc.
- Datblygu a rhannu cynnwys ar gyfer cyfryngau cymdeithasol yn unol â'n canllawiau brand; Agored, Ymgysylltiol, a Brwdfrydig.
- Cyflwyno cynnwys ar gyfer prosiectau M-SParc fel y rhaglen Egni, Digidol, a Sgil-SParc.
- Datblygu cynnwys deniadol ar gyfer gwefan M-SParc gan gynnwys galwadau i weithredu.
- Cynhyrchu deunyddiau marchnata, megis posteri a thaflenni, ar gyfer digwyddiadau a hyrwyddo gweithgareddau.
- Arwain ar y rhaglen o ddigwyddiadau ar gyfer M-SParc.
- Rheoli a gweithio gyda phartneriaid allanol i gyflwyno digwyddiadau yn M-SParc.
- Ar ben hynny, byddwch yn chwaraewr tîm amlochrog a all droi eich sylw at feysydd eraill o'r busnes pan fydd angen gwneud hynny. Mae M-SParc yn awyddus i gyflogi pobl ag agwedd "gallu gwneud", pobl sy'n hyblyg ac sy'n fodlon addasu mewn meysydd sydd y tu allan i'w rolau craidd.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau

Marchnata

- Bod yn rhagweithiol wrth gyflawni tasgau o'r strategaeth farchnata, gan arwain ar gadw hyn yn gyfredol ac yn berthnasol a chynllunio ymlaen llaw ar gyfer digwyddiadau allweddol.
- Ymgysylltu efo brand M-SParc a gweithgareddau'r cwmni, gan greu cynnwys cyfryngau cymdeithasol perthnasol a rheolaidd, dwyieithog ar gyfer llinell amser fywiog a deniadol ar draws pob llwyfan.
- Diweddaru'r wefan gyda newyddion a digwyddiadau pan fo'n briodol a galwadau i ymgysylltu efo M-SParc.
- Cynorthwyo gyda chreu posteri, taflenni a deunyddiau marchnata eraill pan fo angen.
- Gweithio'n agos gyda'r tim ehangach a bod er mwyn bod yn ymwybodol o weithgareddau a phrosiectau i'w harddangos a'u marchnata.
- Datblygu cynnwys gwreiddiol a deniadol sy'n canolbwyntio ar ecosystem M-SParc, gan gynnwys fideos a phodlediadau.
- Ysgrifennu straeon cysylltiadau cyhoeddus ac ymgysylltu efo'r Wasg i'w rhannu.
- Cynhyrchu a rhannu cylchlythyrau gyda rhanddeiliaid.
- Sicrhau bod M-SParc yn parhau i fod yn ganolbwynt arloesi i Gymru.

Yn ychwanegol, disgwylir i Swyddog Marchnata gyda phrofiad fod yn,

- Arwain ar ddatblygu syniadau a strategaethau sydd yn clymu i frand, nodau ac amcanion M-SParc.
- Gweld cyfleoedd fel maent yn codi, bod yr un sy'n cynnig syniadau a chyfleoedd ar gyfer cynnwys.
- Rheoli rhanddeiliaid, deall yr angen i rannu negeseuon wedi'u targedu at grwpiau rhanddeiliaid penodol a meddwl yn strategol yn nhermau sut mae'r rhain yn cael eu cyflwyno.
- Datblygu rhwydwaith, fel bod marchnata yn cael ei ehangu tu hwnt i gyfryngau cymdeithasol a chylchlythyrau ac yn gallu cael ei gyflwyno drwy bartneriaid ac eraill lle mae'n briodol.
- Gweithio gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth, gallu rhannu syniadau ond cyflwyno allbynnau heb gymorth.

Digwyddiadau

- Bod yn rhagweithiol i ddod o hyd i ddolenni i ddigwyddiadau a gweithio gyda cyrff allanol ar ddigwyddiadau ar y cyd.
- Trefnu digwyddiadau mewnol drwy gysylltu efo siaradwyr, creu disgrifiadau, trefnu tocynnau ac hyrwyddo.
- Gweithio gyda'r tim ehangach i gynnal cynadleddau mwy, er enghraifft y Gynhadledd Egni flynyddol.
- Cefnogi digwyddiadau ar-lein, hybrid ac mewn-person, bod ar gael i osod i fyny pan fo angen gan gynnwys defnydd o offer camera a'r stiwdio podledu ar gyfer digwyddiadau mewnol ac allanol.

Yn ychwanegol, disgwylir i Swyddog Digwyddiadau gyda phrofiad

- Arwain ar y rhaglen ddigwyddiadau, gan roi hyder i'r tim ehangach a'u cefnogi i gyflawni eu canlyniadau drwy ddigwyddiadau.
- Cydgysylltu efo rhanddeiliaid allweddol ar gyfer digwyddiadau, sicrhau fod cysylltiadau yn cael eu creu gyda unigolion a chwmnïau nodedig y gallai digwyddiadau fod yn berthnasol iddynt.

- Bod yn hyderus wrth awgrymu gofynion ychwanegol i gefnogi, er enghraifft ffrydio byw a digwyddiadau hybrid.

Dyletswyddau Gweithredol a Chyffredinol

- Cymryd yr awenau i gefnogi ymholiadau cwsmer a chael hyd i gysylltiadau posibl a ffyrdd i gydweithio a chynorthwyo.
- Bod yn rhagweithiol a phositif gyda'r gymuned yma, mynd tu draw i'r hyn sydd ei angen i weithio gyda hwy a darparu gwasanaeth sydd y tu allan i Farchnata a Digwyddiadau.
- Cymryd penderfyniadau annibynnol, o fewn fframwaith wedi'i gytuno gyda Chyfarwyddwr y Cwmni a rheoli eu gwaith pan maent yn absennol.
- Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu eich gwaith eich hun i gyrraedd amcanion a gytunwyd.
- Datrys problemau dydd i ddydd fel maent yn codi, tra'n cydnabod pryd y dylid cyfeirio'r broblem at eraill.
- Mabwysiadu agwedd gadarnhaol at waith tim, bob amser yn chwilio am gyfleoedd i fod yn Llysgennad i M-SParc.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill ar gais y Cyfarwyddwr Gwreithedol i adlewyrchu anghenion a gofynion newidiol M-SParc fel busnes.
- Dyletswyddau cyffredinol a dyletswyddau wedi'u rhannu yn ôl yr angen a all gynnwys:;
    - Agor a chau'r adeilad fel bo'r angen ar sail rota.
    - Dyletswyddau derbynfa.
    - Ymateb i ddigwyddiadau a senarios i sicrhau iechyd a lles staff a thenantiaid fel ei gilydd..

Manyleb Person

Byddwch yn angerddol am nodau ac amcanion M-SParc, yn awyddus i yrru'r economi a chefnogi cwmnïau i dyfu, datblygu cyfleoedd lle mae hynny'n bosibl. Byddwch yn bositif am gydweithio, gyda sgiliau pobl i ddatblygu perthnasau gwaith cryf.

Cerwch amdani! Mae ymchwil yn dangos fod dynion yn fwy tebygol i ymgeisio am rôl lle maent yn bodloni 60% o'r meini prawf, a merched dim ond pan fyddant yn bodloni 100%. Rydym yn argymell eich bod yn ystyried os oes gennych yr angerdd i ymgymryd â'r swydd, a'ch bod yn ymgeisio ar y sail hynny. Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn agored i ymgeiswyr o bob cefndir.

Addysg, Hyfforddiant a Chymhwysterau Dymunol

- Cymhwyster NEU brofiad o farchnata yn ei gyd-destun ehangach.
- Cymhwyster NEU brofiad o redeg cyfrifon cyfryngau cymdeithasol.
- Profiad o weithio fel rhan o dim, rhannu gwybodaeth a chadw perthnasau gweithio da.
- Sgiliau TG, gan gynnwys e-bost sylfaenol a phecynnau Microsoft, ynghyd â hyder i ddysgu sgiliau a rhaglenni newydd.

Sgiliau/Galluoedd Dymunol

- Bod yn gyfathrebwr effeithiol, yn gallu darllen, ysgrifennu a siarad yn y Saesneg a'r Gymraeg.
- Profiad o ddylunio, gan gynnwys creu graffeg.
- Profiad ffotograffiaeth, neu barodrwydd i ddysgu.
- Ffilmograffeg a golygu fideo, neu barodrwydd i ddysgu.
- Y gallu i gydlynu prosiectau gydag ychydig iawn o oruchwyliaeth.
- Gweithio'n hawdd efo pobl newydd ac adeiladu perthnasau yn gyflym.
- Amsugno a rhannu gwybodaeth yn y ffordd gywir, wedi'i deilwra i'r rhai sy'n ei dderbyn.
- Hyder mewn sefyllfaoedd newydd.
- Gallu addasu i heriau newydd yn gyflym.

Os oes gennych y sgiliau yma, cofiwch wneud hynny yn glir ar eich ffurflen gais, gan ddefnyddio esiamplau o'ch profiad. Cofiwch, os na fyddwch yn dweud wrthym, yna ni fyddwn yn gwybod! Os hoffech rannu eich

cais mewn ffurf gwahnaol, er enghraifft mewn ffurf graffeg, neu fel fideo wedi'i olygu, rydym yn croesawu hyn hefyd.

Effaith

Bydd eich rôl a'ch perfformiad yn effeithio yn uniongyrchol ar berfformiad y cwmni ac ar yr un pryd perfformiad economaidd yr ardal, ac felly mae hwn yn gyfle i gael effaith positif a hir-dymor ar gymunedau Gogledd Cymru. Rydym yn chwilio am berson sydd efo'r ardal a'i chymunedau yn agos at eu calonnau ac sy'n credu fod Busnes, Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn gallu cyfrannu tuag at ddyfodol cynaliadwy ar gyfer ein cymunedau.